Cynllun Gwers ABCh CLIC - CA4

Paratoi ar Gyfer Dysgu Gydol Oes – Gwaith a Dysgu

Amlinelliad & Gofynion

Pwnc/Teitl cyffredinol ar gyfer y wers:

Cynllunio fy llwybr dysgu

Cyfnod allweddol neu grŵp myfyrwyr:

CA4

Amser sydd angen

1 awr

Disgrifiad byr:

I adnabod ffyrdd i wella cyflogadwyedd yn opsiynau gyrfa ddewisol y myfyrwyr.

Datblygu meddwl	✓	Datblygu rhifo	
Datblygu cyfathrebu	✓	Gweithio gydag eraill	✓
Datblygu TGC	✓	Gwella hunan ddysgu	✓

Cysylltiad i Fframwaith ABCh APADGOS ar gyfer rai 7 i 19 oed yng Nghymru

Themâu: Dinasyddiaeth Weithredol

Canlyniad dysgu penodol bwriadol:

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

» fod yn uchelgeisiol, hyblyg ac i gofleidio cyfleoedd dysgu
» bod yn drefnus a chymryd cyfrifioldeb am eu gweithrediadau a phenderfyniadau pan ddaw i ddysgu

Ac i ddeall

» y cyfleoedd perthnasol sydd ar gael iddynt mewn addysg a hyfforddiant

Offer, adnoddau a'r paratoi sydd yn rhaid gwneud:

Cyfleusterau TG
Ysgrifbinnau lliw
Papur bras

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cynllun Gwers ABCh CLIC – CA4

Paratoi ar Gyfer Dysgu Gydol Oes – Gwaith a Dysgu

Cynllun Gwers

Dull

Cychwyn Gwers: (5 munud)

» Esboniwch fod diweithdra ymysg pobl ifanc 16-24 oed yn uchel ac yn codi o ganlyn y sefyllfa economaidd bresennol
» Gofynnwch i'r dosbarth ddychmygu mai nhw ydy'r cyflogwr, beth fyddai'n gwneud iddynt ddewis un ymgeisydd dros y llall?

Cyflwyniad: (5 munud)

» Rhannwch y bwrdd i mewn i 3 adran. Ysgrifenwch 'Profiad Gwaith' ar un, 'Addysg a Hyfforddiant' ar un arall a 'Hobïau a Diddordebau' ar y llall
» Gofynnwch i'r dosbarth beth ydy rhai o'r pethau gallent wneud i wella eu cyflogadwyedd o dan y tri chategori yma a ysgrifennwch nhw ar y bwrdd

Profiad gwaith

» Gwirfoddoli
» Cyfnod Preswyl (Internship)
» Lleoliad Gwaith
» Prentisiaeth

Gwaith rhan-amser/dros dro

» Addysg a hyfforddiant
» Cymwysterau ffurfiol: TGAU, Btec
» Cymwysterau anffurfiol a Thystysgrifau: Gwobr Dug Caeredin, Prifysgol Plant, Gwobrau Ieuenctid DU, Cymorth Cyntaf, amryw dystysgrifau
» Dysgu anffurfiol: amryw hyfforddiant
» Cael sgiliau newydd: e.e. dysgu sut i ddefnyddio rhai meddalwedd
» Prentisiaeth
» Cymwysterau penodol (e.e. plymwr, meddygaeth, cyfrifeg)

Hobïau a diddordebau

» Beth ydych chi'n gwneud yn eich amser hamdden?
» Mynd i Glwb Ieuenctid lleol
» Dawnsio
» Crefft ymladd (martial arts)
» Chwarae offeryn
» Chwaraeon: nofio, pêl droed, rygbi, ayb.
» Amryw glybiau a gweithgareddau

Gweithgaredd: (20 munud)

Ar ben eu hunain:

» Rhowch yr adnodd isod i bob myfyriwr a gofynnwch iddynt gwblhau'r adnodd Fy Asesiad Cyflogadwyedd
» Gofynnwch i'r myfyrwyr gwblhau adran 1 lle maent yn edrych ar y 3 pennawd sydd wedi'i drafod fel dosbarth a llenwi eu profiadau a nodau personol
» Wedi cwblhau, trafodwch gyda'r myfyrwyr y gwahaniaeth rhwng sgil (rhywbeth gallwch ddysgu) a nodwedd (rhywbeth rydych chi). Defnyddiwch y dolennau isod i ddiffinio'r rhain ymhellach:
http://www.cliconline.co.uk/cym/gwybodaeth/addysg/sgiliau/
http://www.cliconline.co.uk/cym/gwybodaeth/addysg/sgiliau/nodweddion-personol/
» Gofynnwch i'r myfyrwyr gwblhau'r adran sgiliau a nodweddion o Fy Asesiad Cyflogadwyedd (adran 2)

Cynllun Gwers ABCh CLIC – CA4

Paratoi ar Gyfer Dysgu Gydol Oes – Gwaith a Dysgu

Cynllun Gwers

Mewn Parau: (20 munud)

» Gofynnwch i'r myfyrwyr gysidro pa swydd/gyrfa maent â diddordeb ynddo. Mae'n rhaid i hwn fod yn realistig. Ysgrifennwch y dewis hwn yn Fy Asesiad Cyflogadwyedd (adran 3). Gall myfyrwyr ddefnyddio'r ddolen ganlynol ar CLIC i gysidro'r opsiynau gwahanol: http://www.cliconline.co.uk/cym/gwybodaeth/cyflogaeth-a-hyfforddiant/fy-mreuddwyd/

» Gofynnwch i'r myfyrwyr helpu ei gilydd i ddarganfod ffyrdd o symud tuag at eu dewis gyrfa bresennol. Nodwch hwn i lawr yn Fy Asesiad Cyflogadwyedd (adran 4). Gallent daflu syniadau am ffyrdd penodol gall helpu nhw i wella eu cyflogadwyedd yn yr ardal hon

◊ E.e. Os ydy'r llwybr gyrfa ddewisol yn bod yn athro, efallai gall yr unigolyn ddechrau tiwtro eu brawd neu chwaer fach, astudio pynciau priodol yn yr ysgol, siarad ag athrawon i ddarganfod mwy am y swydd a'r sgiliau a'r nodweddion sydd angen, darganfod pa sefydliadau sy'n cynnig cyrsiau mewn hyfforddiant athrawon ayb

» Gallent ddefnyddio'r rhyngrwyd i chwilio am gyrsiau a'r cymwysterau byddent angen i gael y swydd mae ganddynt ddiddordeb ynddo. Gallent ddefnyddio'r cyswllt CLIC isod yn benodol, fydd yn cysylltu nhw i'r wefan Gyrfa Cymru neu gallent fynd yn syth at www.gyrfacymru.com

Cyflawni (10 munud)

» Cyflwyno eu hatebion i'r dosbarth

» Crynhoi'r pwyntiau allweddol fod myfyrwyr angen amrediad o agweddau i wella eu cyflogadwyedd: profiad gwaith, addysg a hyfforddiant, hobïau a diddordebau, sgiliau a nodweddion

Awgrymiadau ac adnoddau ychwanegol:

Adran Addysg CLIC:
http://www.cliconline.co.uk/cym/gwybodaeth/addysg/

Cynllun Gwers ABCh CLIC - CA4

Paratoi ar Gyfer Dysgu Gydol Oes – Gwaith a Dysgu

Fy Asesiad Cyflogadwyedd

Adran 1

Llenwch y tabl isod amdanoch CHI'CH hunain

Profiad Gwaith	Addysg a Hyfforddiant	Hobïau a Diddordebau

Adran 2

Defnyddiwch y linciau dilynol i helpu darganfod eich sgiliau a'ch nodweddion.
http://www.cliconline.co.uk/cym/gwybodaeth/addysg/sgiliau/
http://www.cliconline.co.uk/cym/gwybodaeth/addysg/sgiliau/nodweddion-personol/

Beth yw sgil?	Beth yw nodwedd?
Beth ydy fy sgiliau?	**Beth ydy fy nodweddion?**

Cynllun Gwers ABCh CLIC - CA4

Paratoi ar Gyfer Dysgu Gydol Oes – Gwaith a Dysgu

Fy Asesiad Cyflogadwyedd
Adran 3

Cymerwch ychydig o amser i ymchwilio pa yrfa/swydd gallwch ei wneud yn REALISTIG. Efallai eich bod yn newid eich meddwl am hyn, ond meddyliwch am beth fyddech chi'n hoffi gwneud heddiw? Defnyddiwch y gwefannau canlynol i helpu chi feddwl am hyn:

http://www.cliconline.co.uk/cym/gwybodaeth/cyflogaeth-a-hyfforddiant/fy-mreuddwyd/
http://www.gyrfacymru.com

Pa swydd/gyrfa hoffwn i wneud?

Adran 4

Gyda phartner, meddyliwch beth allech wneud nawr i symud chi tuag at y swydd/gyrfa rydych yn cysidro. Yn y blwch isod lluniwch lwybr o ble rydych nawr, i pan fyddwch chi yn eich swydd ddewisol. Arwydd bostiwch eich llwybr gydag amryw bethau sydd yn rhaid eu gwneud. Efallai hoffech gysidro'r canlynol:

- **Pwy** gallaf i siarad gyda nhw – cynghorydd gyrfa, athro, gweithiwr ieuenctid, rhiant/gwarchodwr/cyflogwr
- **Pa** gymwysterau, profiad, hobïau a diddordebau fydd angen arnaf i?
- **Ble** sydd yn rhaid i mi fynd i astudio/ cael profiad/ darganfod mwy?
- Erbyn **pryd** ydw i'n bwriadu gwneud hyn?

Gallwch ddefnyddio'r rhyngrwyd a'r linc CLIC canlynol i helpu chi:

http://www.cliconline.co.uk/cym/gwybodaeth/cyflogaeth-a-hyfforddiant/

Sut gallaf i gyrraedd yno?